**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

8fed o Fai, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Clifford Williams, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Jess Williams (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

GEH a MLW – Eitem 15

**Penderfyniadau**

**Mynwent Bethel, Golan** – Adroddwyd fod gwaith wedi'i gwblhau yn y fynwent yn ddiweddar. Soniwyd bod un darn o'r concrid ychydig yn sigledig ac angen ei ail wneud.

Trafodwyd dyfynbris gan yr un contractwr ar gyfer gwaith pellach o osod slabiau i ddiffinio'r ardal rhwng claddu llwch a chladdu plant a hefyd y gwaith o drwsio'r lander ar y sied. Roedd y dyfynbris yn cynnwys pris o waredu pridd, awgrymwyd bod angen cadw'r pridd yn y fynwent yn hytrach na'i waredu. Soniwyd bod angen cywiro a thrwsio'r concrid sigledig yn gyntaf cyn cychwyn ar y gwaith yma. MLW yn cynnig derbyn y dyfynbris ar yr amod bod y gwaith cywiro yn cael ei wneud i gychwyn a bod y pridd yn cael ei gadw yn y fynwent yn hytrach na'i waredu, RP yn eilio.

Soniwyd bod hefyd angen gwirio os oes yna "*soakaway*" o dan y gwair ger y sied – Clerc i edrych ar gynlluniau'r fynwent.

**Pont y Traeth**

Adroddodd GE fod yr ORR wedi dweud fod yr arwydd 'stop' ar y ffordd yn groes i reoliadau ac maent wedi cytuno i'w dynnu, ond mae Cyngor Gwynedd yn rhoi pwysau ar yr

ORR i ailfeddwl. Gofynnwyd i'r Clerc fynd â'r mater yma ymhellach at Bennaeth Amgylchedd, sef Dafydd Wyn Williams.

**Cais am Arian**

**Ysgol y Gorlan, Tremadog** – Mae Ysgol y Gorlan wedi bod yn llwyddiannus unwaith yn rhagor yn yr eisteddfod yn Eifionydd ac ym Mangor ac wedi cael mynd drwodd i gynrychioli Eifionydd yn y Brifwyl ym Mharc Margam. Maent yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gostau teithio a mynediad i'r Eisteddfod. Cafwyd dau gynnig – y cynnig cyntaf oedd bod y Cyngor yn cyfrannu £300.00, IE yn cynnig a HP yn eilio. Yr ail gynnig oedd ein bod yn cyfrannu pris mynediad i'r Eisteddfod ar gyfer pob plentyn sydd yn y parti, sef £12.00 y plentyn, GE yn cynnig a RJ yn eilio. Byddai'r rhodd yma yn cael ei wneud allan o gronfa'r Cadeirydd.